# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-21-08)

**Dyddiad: 6 Hydref 2008**
**Amser : 14.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC197 - Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cymeradwyo Personau i fod yn Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 17 Medi 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.
Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi nifer o faterion y mae'n rhaid i Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol gydymffurfio â hwy pan fyddant yn cymeradwyo (neu'n ail-gymeradwyo) person i fod yn weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (GPIMC). Caniateir i GPIMC ymgymryd â nifer o swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn cynnwys gwneud cais i gadw person o dan orchymyn, a hynny o dan y Ddeddf honno.

SLC199 - Rheoliadau Iechyd Meddwl (Gwrthdrawiad Buddiannau) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 17 Medi 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod yr amgylchiadau pan fo'r posibilrwydd o wrthdrawiad buddiannau yn gyfryw ac nad oes modd i weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wneud cais a grybwyllir yn adran 11(1) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("y Ddeddf"), neu nad oes modd i ymarferydd meddygol cofrestredig wneud argymhelliad meddygol o dan adran 12(1) at ddibenion cais i berson gael ei dderbyn o dan y Ddeddf oherwydd bod gan y person sydd am wneud y cais wrthdrawiad buddiannau proffesiynol, ariannol, busnes neu wrthdrawiad buddiannau personol posibl.

SLC202 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 23 Medi 2008. Yn dod i rym ar 21 Hydref 2008.
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2005 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweinyddu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 ("Rheoliad y Cyngor"), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 795/2004, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 796/2004 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1973/2004 mewn perthynas â sefydlu system o gynlluniau cymorth uniongyrchol (gan gynnwys Cynllun y Taliad Sengl) a gyflwynwyd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2005. Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2 (dehongli) o'r prif Reoliadau. Mae rheoliad 4 yn disodli rheoliad 6 (cyfnod o 10 mis) o'r prif Reoliadau i ddileu darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofyniad am i ffermwyr sy'n gwneud cais o dan Gynllun y Taliad Sengl gael at eu defnydd am gyfnod o ddeng mis barseli o dir y maent yn gwneud cais mewn cysylltiad â hwy. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 7A o'r prif Reoliadau, sy'n darparu ar gyfer meini prawf ar gyfer cyfrifo swm cyfeiriadol y ffermwr mewn perthynas â betys siwgr. Mae rheoliad 6 yn dirymu rheoliad 8 (Garddwriaeth) o'r prif Reoliadau. Mae rheoliad 7 yn diwygio rheoliad 11 o'r prif Reoliadau, o ran modiwleiddio gwirfoddol.

**SLC203 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 20 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 23 Medi 2008. Yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2008
Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) 1989 ("Rheoliadau 1989") o ran eu cymhwyso i Gymru ac yn ailddeddfu Rheoliadau 1989 gyda diwygiadau. Mae adran 45 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol ("Deddf 1988") yn darparu bod perchnogion eiddo annomestig gwag yn atebol i dalu ardrethi annomestig os yw amodau penodol yn gymwys. Un o'r amodau a osodir gan adran 45 o Ddeddf 1988 yw bod rhaid i'r eiddo ddod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir, o ran Cymru, gan Weinidogion Cymru. Yn ogystal â diwygiadau drafftio, yr unig newid o sylwedd yn y Rheoliadau hyn yw'r eithriad newydd a gynhwysir ar gyfer cwmnïau yn nwylo gweinyddwyr.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC198 - Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 17 Medi 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ynghylch y trefniadau ar gyfer penodi Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl ("EAIMau") ynghyd â darpariaeth ynghylch pwy y caniateir ei benodi'n EAIM.

SLC200 - Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 17 Medi 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.
Gwneir y Rheoliadau hyn o dan o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) ("y Ddeddf"). Y rhain yw'r prif Reoliadau sy'n ymdrin ag arfer pwerau gorfodol mewn cysylltiad â phersonau sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty neu o dan warcheidiaeth, neu'n destun gorchymyn triniaeth gymunedol. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r ffurflenni sydd i'w defnyddio wrth arfer swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau.

### Eitem 4: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig

### Eitem 4.1: Cymru Yfory (linc fideo)

SLC(3)-21-2008(p1)

Alan Trench, Cynghorydd Cyfansoddiadol - Cymru Yfory/Tomorrow's Wales

### Eitem 4.2: Sesiwn dystiolaeth: Materion Cyhoeddus Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru

**Materion Cyhoeddus Cymru**

SLC(3)-21-2008(p2)

Daran Hill: Cadeirydd

Darren Hughes: Is-gadeirydd a Swyddog Polisi

Helen Miller: Rheolwr Polisi ac Ymgyrchoedd, Gofal Arthritis yng Nghymru

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

SLC(3)-21-2008(p3)

Llinos Price, Uwch Swyddog Polisi

Keith Davies, Pennaeth Polisi Amgylcheddol

**Cyswllt Amgylchedd Cymru**

SLC(3)-21-2008(p4)

Anne Meikle: Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth, WWF Cymru

Annie Smith: Swyddog Polisi Morol, RSPB Cymru

### Eitem 5: Unrhyw fater arall

### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf